# Trametinib mewn cyfuniad â dabrafenib ar gyfer trin melanoma metastatig neu felanoma na ellir ei dynnu'n llwyr

Mehefin 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir trametinib (Mekinist) ar y cyd â dabrafenib (Tafinlar) fel triniaeth bosibl i oedolion â melanoma:

- na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth neu sydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff ac
- sydd â mwtadiad BRAF V600.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych felanoma fel y disgrifir uchod, a bod eich meddyg yn credu mai trametinib ar y cyd â dabrafenib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai trametinib ar y cyd â dabrafenib fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

### Y cyflwr a'r triniaethau

Math o ganser y croen yw melanoma. Cyfeirir ato fel melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr pan na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth, ac fel melanoma metastatig os bydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff. Mae un math o melanoma yn achosi newid yn y celloedd o'r enw 'mwtadiad BRAF V600'. Mae hyn yn peri iddo gynhyrchu gormod o brotein BRAF, ac mae'r protein hwn yn peri i'r celloedd canser dyfu a rhannu.

Mae trametinib (Mekinist) a dabrafenib (Tafinlar) yn gyffuriau sy'n gweithio drwy atal y celloedd rhag cynhyrchu protein BRAF. Gallant arafu twf y canser. Dim ond i drin melanoma a brofwyd ac y canfuwyd ei fod yn cynnwys

mwtadiad BRAF V600 y defnyddir trametinib a dabrafenib. Maent ar ffurf tabledi.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Melanoma UK, 0808 171 2455
- Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford, 0115 981 9116

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1993-2